# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y_Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 1 Gorffennaf 2020

Amser y cyfarfod: 11.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/6380) yn:

[http://senedd.tv/cy/6380](http://senedd.tv/cy/6380)

## 282

---

Dechreuodd yr eitem am 11.00.

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r Cyfarfod Llawn rhithwir a dywedodd fod y Cyfarfod Llawn hwn, a gynhelir drwy gynhadledd fideo yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, yn gyfystyr â thrafodion y Senedd at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dywedodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, y bydd rhai o ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34 yn gymwys - nodwyd pob un ohonynt ar yr agenda.

Dywedodd y Llywydd fod y cyhoedd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, wedi cael eu gwahardd rhag mynychu'r Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw a byddai cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd hefyd y byddai Rheolau Sefydlog yn ymwneud â threfniadau a threfn busnes yn y Cyfarfod Llawn yn gymwys i'r cyfarfod hwn.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 11.01

Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 12.05

## 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd – (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

Dechreuodd yr eitem am 12.15

Gofynnwyd y 7 cwestiwn.

## 4 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 12.44

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Am 13.28, cafodd y cyfarfod ei atal dros dro tan 14.15.**

## 5 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 1 i 5 gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 6 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.02.

Gofynnwyd y 5 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 6 oherwydd problemau technegol.

**Cafwyd egwyl am resymau technegol am 15.22.**

## 7 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.23

Gofyn i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau a gafwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn dilyn y cyhoeddiad am golli swyddi yn Airbus?

## 8 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Yr Argyfwng Hinsawdd

Dechreuodd yr eitem am 15.39

## 9 Dadl: Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.10

**NDM7340** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd yn cytuno, yn unol â Rheol Sefydlog 30A.10, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mai 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Dadl Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar effeithiau COVID-19 ar Economi, Seilwaith a Sgiliau Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.15

**NDM7341** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiadau Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol a [osodwyd]() yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mehefin 2020 ac Effaith COVID-19: Sgiliau - canfyddiadau cynnar a [osodwyd]() yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Dadl Plaid Cymru - Cwricwlwm Newydd Arfaethedig

Dechreuodd yr eitem am 17.17

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7342** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn datgan cefnogaeth gyffredinol i bwrpas y cwricwlwm newydd arfaethedig, sef galluogi dysgwyr i ddatblygu fel:

a) dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau;

b) cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;

c) dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac

d) unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

2. Yn cytuno bod cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle hanesyddol i unioni sawl anghyfiawnder strwythurol yng Nghymru.

3. Yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod cyfrifoldeb ar lywodraeth gwlad i gymryd camau penodol i sicrhau bod y cwricwlwm yn gwarantu gwaelodlin o ddarpariaeth i bobl ifanc ar draws Cymru fel mater o hawliau dynol sylfaenol ac yn croesawu y bydd rhai elfennau o'r cwricwlwm newydd yn orfodol o ganlyniad.

4. Yn cytuno y dylai'r elfennau gorfodol o'r cwricwlwm gynnwys:

a) hanes pobl ddu a phobl o liw; a

b) hanes Cymru.

5. Yn cytuno y dylai'r cwricwlwm newydd gefnogi pob dysgwr i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond nad oes angen i'r Saesneg gael ei chynnwys yn y rhestr o elfennau gorfodol er mwyn cyflawni'r nod hwn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 1 | 46 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cytuno y gall y cwricwlwm newydd, os yw'n llwyddo yn ei amcanion, helpu i ddatblygu dinasyddion hyderus, sy'n gyd-gyfrifol, a fydd yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael ag anghyfiawnder o bob ffynhonnell.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 4 | 42 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** – Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu pwyntiau 4 a 5 a rhoi yn eu lle:

Yn cydnabod bod canllawiau'r Cwricwlwm Newydd i Gymru o ran y Dyniaethau yn "hyrwyddo dealltwriaeth o'r amrywiaeth ethnig a diwylliannol yng Nghymru" ac yn

“galluogi dysgwyr i ymroi i weithredu cymdeithasol fel dinasyddion cyfranogol, gofalgar o’u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.”

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i:

a) gweithio gydag Estyn er mwyn sicrhau bod eu hadolygiad o hanes Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i hanes, hunaniaeth a diwylliant pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru a thu hwnt; a

b) sefydlu gweithgor i oruchwylio’r gwaith o ddatblygu adnoddau dysgu, ac adnabod bylchau yn yr adnoddau neu’r hyfforddiant presennol yn ymwneud â chymunedau, cyfraniadau a phrofiadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Yn cytuno y dylai’r cwricwlwm newydd gefnogi pob dysgwr i ddysgu Cymraeg a Saesneg.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 4 | 22 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gan fod gwelliant 2 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliannau 3 a 4 eu dad-ddethol**

**Gwelliant 5 - Neil McEvoy (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu ar gyfer dysgu Cymraeg a bod hyn yn cael ei ategu gan fuddsoddiad i sicrhau bod cyrsiau trochi dwys yn y Gymraeg ar gael yn rhwydd i athrawon a disgyblion fel ei gilydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 41 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Neil McEvoy (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y cwricwlwm newydd i sicrhau bod pob disgybl yn dysgu iaith dramor fodern o flwyddyn 1 yn yr ysgol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 40 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Neil McEvoy (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai'r ffordd orau o roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus yw drwy leihau maint dosbarthiadau i lai na 20 o ddisgyblion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 1 | 14 | 41 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ailystyried y dyddiad cychwyn ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd i ddarparu ar gyfer oedi wrth ei baratoi oherwydd COVID-19.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 41 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7342** [Sian Gwenllian (Arfon)]

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn datgan cefnogaeth gyffredinol i bwrpas y cwricwlwm newydd arfaethedig, sef galluogi dysgwyr i ddatblygu fel:

a) dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau;

b) cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;

c) dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac

d) unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

2. Yn cytuno bod cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle hanesyddol i unioni sawl anghyfiawnder strwythurol yng Nghymru.

3. Yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod cyfrifoldeb ar lywodraeth gwlad i gymryd camau penodol i sicrhau bod y cwricwlwm yn gwarantu gwaelodlin o ddarpariaeth i bobl ifanc ar draws Cymru fel mater o hawliau dynol sylfaenol ac yn croesawu y bydd rhai elfennau o'r cwricwlwm newydd yn orfodol o ganlyniad.

4. Yn cydnabod bod canllawiau'r Cwricwlwm Newydd i Gymru o ran y Dyniaethau yn "hyrwyddo dealltwriaeth o'r amrywiaeth ethnig a diwylliannol yng Nghymru" ac yn "galluogi dysgwyr i ymroi i weithredu cymdeithasol fel dinasyddion cyfranogol, gofalgar o'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang."

5. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i:

a) gweithio gydag Estyn er mwyn sicrhau bod eu hadolygiad o hanes Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i hanes, hunaniaeth a diwylliant pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru a thu hwnt; a

b) sefydlu gweithgor i oruchwylio’r gwaith o ddatblygu adnoddau dysgu, ac adnabod bylchau yn yr adnoddau neu’r hyfforddiant presennol yn ymwneud â chymunedau, cyfraniadau a phrofiadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

6. Yn cytuno y dylai’r cwricwlwm newydd gefnogi pob dysgwr i ddysgu Cymraeg a Saesneg.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 14 | 12 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y’i diwygiwyd.**

## 12 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.27

**Fel y nodir ar yr Agenda, cynhaliwyd pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11.**

**Enwebodd pob grŵp gwleidyddol un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gario'r un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp. Yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol, bydd yr enwebai yn cario'r un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp hwnnw ynghyd ag unrhyw aelodau eraill o'r llywodraeth. Roedd Aelodau nad ydynt yn perthyn i grŵp neu grwpiad yn pleidleisio drostynt eu hunain.**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.32

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 11.00, Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2020**